**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

19 Eich cyf/Your ref P-06-1456
Ein cyf/Our ref JMHSC/00229/26

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd
y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

19 Chwefror 2026

Annwyl Carolyn,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 27 Ionawr ynglŷn â Deiseb P-06-1456 yn ymwneud â chynlluniau i ddarparu gwasanaethau Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS) Cymru o ganolfan newydd yn y Gogledd.

Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau am gomisiynu gwasanaethau EMRTS Cymru.

Mewn ymateb i'ch cwestiwn am amserlenni, yng nghyfarfod diweddaraf y cyd-bwyllgor ar 27 Ionawr, adolygodd yr aelodau y cynnydd sydd wedi ei wneud, gan gytuno ar y camau nesaf. Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cynnal adolygiad manwl o sut mae gwasanaethau ambiwlans yn gweithredu mewn ardaloedd gwledig, a fydd yn helpu i ddiweddaru cynigion, gan gynnwys:

- Sut y gall y gwasanaeth ambiwlans barhau i ddiwallu anghenion poblogaethau gwledig;
- Sut y mae angen sicrhau bod modelau gwasanaeth yn gydnaws â Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol diwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Ambiwlans Brys, sy'n blaenoriaethu canlyniadau cleifion ac anghenion clinigol yn hytrach na chanolbwyntio ar amseroedd ymateb yn unig.

Bydd y gwaith hwn yn ganolog i ddatblygu ac adnewyddu cynnig ar gyfer argymhelliad 4.

O ran amserlen datblygu'r cynigion ar gyfer gwasanaeth pwrpasol ar y ffyrdd, mae'r cyd-bwyllgor wedi bod yn glir y bydd hyn yn cael ei ystyried ochr yn ochr â datblygu ei Gynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2026–29. Byddai'n amhriodol imi wneud sylwadau ar unrhyw gynigion cyn iddynt gael eu hystyried gan y cyd-bwyllgor.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran cydgrynhoi'r gwasanaethau a ddarperir o ganolfan newydd, mae elusen Ambiwlans Awyr Cymru, sy'n gyfrifol am awyrennau, peilotiaid a chyfleusterau'r canolfannau, yn datblygu cynlluniau pontio sy'n gysylltiedig â dyfodol ei chanolfannau presennol yng Nghaernarfon a'r Trallwng. Er mwyn cynnal dilyniant yn y gwasanaeth, mae opsiynau megis estyniadau prydles dros dro ar gyfer y canolfannau presennol yn cael eu hystyried.

Er na ellir cadarnhau amserlenni terfynol eto gan fod y trafodaethau masnachol yn parhau, mae'r cyd-bwyllgor yn disgwyl derbyn rhagor o wybodaeth gan yr elusen y mis hwn, ac ar ôl hynny bydd diweddariadau cyhoeddus yn cael eu darparu.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care